## CRONFA DECHRAU BUSNES

## NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR

Mae hwn yn gynllun grant hyblyg a ddarperir trwy bartneriaeth ag *UK Steel Enterprise* a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i ficrofusnesau newydd neu sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u lleoli, neu sy'n bwriadu lleoli, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Diffinnir microfusnes fel un sydd â llai na **deg** o weithwyr a chyfanswm trosiant neu fantolen o lai na €2 filiwn.

### PWY ALL WNEUD CAIS?

Gellir ystyried busnesau newydd a busnesau newydd o fewn y 3 blynedd gyntaf o fasnachu. Efallai y bydd angen tystiolaeth i gadarnhau hyd y masnachu. Rhaid i'r busnes fod wedi'i leoli o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ar gyfer busnesau sydd wedi cofrestru o gyfeiriad cartref, cyfeiriwch at y canllawiau canlynol:

https://www.bridgend.gov.uk/media/5646/pre-application-advice-guidance-note-13th-june-2016-reviewed-111018-for-adoption-on-010119.pdf

Sylwch, os yw busnes yn symud o'r ardal o fewn blwyddyn i dderbyn cyllid, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r hawl i ofyn am ad-daliad llawn neu ran o'r arian hwnnw yn ôl gan yr ymgeisydd.

### PWY SYDD DDIM YN GALLU GWNEUD CAIS?

Y rhai nad ydyn nhw'n gymwys i wneud cais yw:

Sefydliadau/Grwpiau nad ydyn nhw'n ymgymryd â gweithgareddau masnachu
Grwpiau Gwleidyddol neu Grefyddol
Clybiau a Chymdeithasau
Sefydliadau Gwirfoddol
Y rhai sy'n derbyn arian uwchlaw trothwyon Rheoli Cymhorthdal

### BETH SY'N GALLU DERBYN CYLLID AC AM FAINT O GYLLID Y GALLWCH WNEUD CAIS AMDANO?

Gallai costau cymwys gynnwys:

Offer cyfalaf
Offer cyfrifiadurol
Datblygu gwefannau
Gwaith adeiladu ar safleoedd busnes

Gall y grant ddarparu hyd at 50% o gostau cymwys prosiectau. Y grant lleiaf yw £250 a'r grant mwyaf sydd ar gael yw £4,000 felly uchafswm cost y prosiect yw £8,000 (heb gynnwys TAW). Bydd y grant yn cael ei ddyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin a rhaid i bob ffurflen gydymffurfio a chynnwys y wybodaeth berthnasol y mae'n rhaid lanlwytho rhywfaint ohono.

### BETH NA ALLWN NI EI ARIANNU?

Unrhyw gostau cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol.
Unrhyw gostau refeniw.
TAW neu unrhyw drethi eraill.
Cerbydau.
Costau cyfreithiol/Gwaith sy'n cael ei wneud fel gofyniad statudol.
Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol.

Ail-ariannu dyledion drwg o unrhyw fath, neu rwymedigaethau cwmni nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r prosiect.
Costau hyfforddi.
Costau cais cynllunio.
Yswiriant, cyflogau neu orbenion busnes gan gynnwys cyflogau a chostau staff eraill.
Paratoi cynlluniau ac astudiaethau, e.e. Cynlluniau Busnes/Astudiaethau Dichonoldeb.
Costa marchnata/hysbysebu (taflenni, cardiau busnes ac ati)
Stoc neu eitemau na ellir eu hailddefnyddio.
Gwaith a wneir ar eiddo domestig, naill ai adeilad newydd neu waith adnewyddu neu estyniadau/ystafelloedd gardd/cabanau pren.

**SUT I WNEUD CAIS**

Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais a chynllun busnes gyda rhagolygon o'r llif arian ar gyfer 12 mis. Mae angen dau ddyfynbris tebyg hefyd ar gyfer pob eitem gyfalaf sydd eu hangen arnoch, byddwn yn defnyddio'r dyfynbris rhataf a ddarparwyd i bennu swm y grant. Rhaid i'r busnes geisio darparu cyflogaeth i'r Ymgeisydd am o leiaf 30 awr yr wythnos a dylai ddarparu eich prif fath o incwm. Ni all y grant gefnogi datblygiad unrhyw hobi neu adloniant. Mae cymorth a chyngor ar lunio cynllun busnes ar gael gan Busnes Cymru – ffôn 03000 6 03000, neu ewch i'w gwefan

https://businesswales.gov.wales/starting-up/,
https://businesswales.gov.wales/campaigns/startup?utm_source=GoogleAds&utm_medium=cpc&utm_campaign=BusinessWalesStartUpGS&gclid=EAIaIQobChMIvceg89Tw7gIVQe7tCh3zewKNEAAYAiAAEgL3r_D_BwE

**TAFLENNI FFEITHIAU CYCHWYN BUSNES**

Gallwch dderbyn taflenni ffeithiau a gwybodaeth ar sut orau i gychwyn busnes mewn gwahanol fathau o weithgareddau busnes drwy fynd i wefan Busnes Cymru, neu gallwch gysylltu â nhw â'r eu llinell gymorth ar 03000 6 03000.

https://businesswales.gov.wales/business-startup-factsheet

Ni ddylid gwario unrhyw arian cyn bod y grant yn cael ei gymeradwyo, gan na ellir dyfarnu'r grantiau yn ôl-weithredol. O dan amgylchiadau arferol byddwn ond yn cefnogi un cais am gyllid o dan y Gronfa Cychwyn Busnes.

**Ni DDYLAI** busnes/cyfarwyddwr(wyr) y busnes fod â buddiant/cyfranddaliadau yn unrhyw un o'r cwmnïau sy'n cyflenwi dyfynbrisiau/amcangyfrifon ar gyfer y cais am grant. Rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant trwy gwblhau a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn y byddwn yn ei hanfon atoch os bydd eich cais am grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen â'ch prosiect nes eich bod wedi dychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Pe na bai'r prosiect yn mynd rhagddo o fewn y cyfnod a nodir yn y llythyr cynnig byddai'r grant yn dod i ben yn awtomatig.

**NI FYDD** eitemau a brynir trwy gerdyn credyd/hurbwrcas/cytundebau credyd estynedig/prydlesi cyllid a phryniannau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant. Mae angen i bob pryniant gael ei wneud o'r **CYFRIF BANC a restrir ar y ffurflen gais y mae'n rhaid iddo fod yn enw'r Busnes neu'r Ymgeisydd**. Os bydd y cais yn llwyddiannus, telir yr arian grant yn syth i **GYFRIF BANC** yr Ymgeisydd neu'r Busnes ar ôl derbyn anfonebau a gweld cyfriflenni banc i gadarnhau taliad a monitro boddhaol. Ni fydd grant yn cael ei gynnig na'i dalu os yw'r Busnes neu'r Ymgeisydd mewn ôl-ddyledion gydag unrhyw daliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gwneir gwiriadau yn ôl yr angen, i'w pennu gan eich Swyddog Prosiect

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

uk steel enterprise